GWAHODDIAD I DENDRO - CONSESIWN HUFEN IÂ GWYNEDD

**Cyfnod y consesiwn - 01/01/2026 - 30/04/2027**

TELERAU AC AMODAU

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor GWYNEDD (y Cyngor) yn cynnig cyfle i gwmnïau hufen iâ sefydledig (y Tendrwr) i wneud cais am gonsesiynau arlwyo (y Consesiwn) ar safle a fanylir yn Atodlen 1; gweler y telerau a'r amodau ar y tudalennau dilynol. Rhaid nodi nad yw'r consesiwn hwn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth o gyfleusterau neu wasanaethau o gwbl.

2. TELERAU AC AMODAU

2.1 Bydd modd i'r Tendrwr llwyddiannus weithredu uchafswm o hyd at 1 fan hufen iâ fel rhan o'r consesiwn i werthu hufen iâ.

**Safleoedd:**

- **Cilan, Porth Neigwl**

Bydd y fan hufen iâ sy'n gysylltiedig â'r consesiwn hwn yn cael eu lleoli fel y pennir gan y Cyngor.

Caniateir i'r Tendrwr weithredu o 09:00 hyd 21:00 bob dydd yn ystod cyfnod y tendr. Rhaid i bob fan gael ei symud oddi ar y safle erbyn 21.00 bob dydd.

Dylai tendrwyr archwilio'r safle y maent yn tendro am a bod yn ymwybodol fod caffis yn gweithredu drwy'r flwyddyn mewn rhai safleoedd consesiwn penodol a chan nad yw lleoli fan hufen iâ yn weithgarwch trwyddedig, yna gall perchnogion tir preifat osod consesiynau hefyd.

Rhaid i fanylion am y fan hufen iâ y gellir eu darparu gan y Tendrwr gael eu rhestru fel rhan o'u cyflwyniad Ffurflen Tendro, ynghyd â'r incwm a gynigir am y Consesiwn a phrawf o'u tystysgrif hylendid. Hefyd, dylai tystlythyrau priodol fod ar gael ar gais.

Dylid rhestru maint y fan hufen iâ fel rhan o'r cyflwyniad Ffurflen Tendro.

Rhaid i'r fan hufen iâ fod yn hunan-gynhaliol a pheidio â bod angen unrhyw gyflenwad ynni gan y Cyngor.

Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl, gan weithredu'n rhesymol ond gyda'i ddisgresiwn llwyr, i gau Consesiwn ar unrhyw adeg os yw'n ystyried bod angen gwneud hynny.

Gwaherddir defnyddio unrhyw system PA o unrhyw fan arlwyo hufen iâ oni bai bod caniatâd ysgrifenedig wedi'i dderbyn ymlaen llaw gan y Cyngor.

Caniateir defnyddio generaduron wedi'u tawelu ar gyfer gweithredu'r faniau hufen iâ.

Rhaid i'r Tendrwr beidio â gadael i unrhyw fan hufen iâ dorri arwyneb y ddaear, oni bai ei fod wedi cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor. Rhaid i'r Tendrwr ei adfer hyd foddhad y Cyngor. Gallai methu â gwneud hynny arwain at y Cyngor yn adfer y tir a byddai'n rhaid ad-dalu unrhyw gostau rhesymol i'r Cyngor ar unwaith ar ei gais.

Bydd y Tendrwr yn indemnio'r Cyngor yn llwyr yn erbyn yr holl gamau, costau, hawliadau, gofynion ac atebolrwydd waeth sut y byddant yn codi, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn gysylltiedig â meddiannaeth y Tendrwr, ac yn benodol (ond heb gyfyngu ar gyffredinoledd y blaenorol),

yn indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw atebolrwydd am anaf, neu farwolaeth unrhyw berson a cholled neu ddifrod i unrhyw eiddo, waeth sut fo hynny'n cael ei achosi. Yn ogystal, bydd y Tendrwr, mewn cysylltiad â'i atebolrwydd o dan hyn yn cael polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus am swm indemniad o ddim llai na **£5 miliwn o bunnoedd** mewn perthynas ag unrhyw hawliad unigol. Rhaid i'r Tendrwr ddal pob ysiwriant sy'n ofynnol yn gyfreithiol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfynedig i yswiriant atebolrwydd gweithwyr. Trwy'r broses dendro hon tybir bod yswiriant yn ei le ac yn cael ei ddal gan y Tendrwr a chyfrifoldeb y Tendrwr yw sicrhau a sefydlu hyn yw'r achos. Rhaid darparu copi o'r atodlen atebolrwydd cyhoeddus fel rhan o'r tendr. Efallai y gofynnir am dystiolaeth arall yr yswiriannau.Nid yw'r Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod i eiddo'r consesiwn arlwyo, neu i'w gweithwyr neu ymwelwyr.

Rhaid i'r Tendrwr gadw offer diffodd tân addas mewn perthynas â'r Consesiwn a'i fod ar gael i'w ddefnyddio bob amser. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i archwilio'r holl unedau ac offer gyda'r Swyddog Tân neu hebddo, er dibenion sicrhau fod rhagofalon tân digonol wedi cael eu cymryd.

Ni chaniateir i'r Tendrwr is-osod neu rannu'r cyfan neu unrhyw gyfran o ardal y llain a ddyrannir a bydd unrhyw nwyddau neu arddangosfa ar lain o'r fath yn groes i'r rheol hon yn cael ei waredu.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i archwilio pob stondin ac offer heb roi rhybudd ymlaen llaw.

Bydd y Tendrwr yn cwrdd â'r holl gostau sy'n cronni ar gyfer gosod y faniau hufen iâ ac unrhyw gyflenwadau neu gyfleusterau / gwasanaethau sydd eu hangen.

Mae'r Tendrwr yn gyfrifol am sicrhau fod ardal ei lain yn cael ei chadw'n lân ac yn rhydd o ysbwriel.

Ni chaniateir i'r cyhoedd ddefnyddio cynwysyddion gwydr ar gyfer yr hufen iâ.

Rhaid i'r tendrwr sicrhau fod yr holl offer a chyfarpar a ddarperir neu a ddefnyddir gan y Tendrwr wedi cael ei archwilio a'i brofi ar gyfnodau addas a rheolaidd (neu os yn berthnasol, fel sy'n ofynnol gan y gyfraith), a'i fod mewn cyflwr diogel bob amser ac yn saff i'w ddefnyddio a bod ganddo'r tystysgrifau cyfredol yn eu lle fel sy'n ofynnol gan y gyfraith. Bydd y tendrwr yn cyflwyno'r tystysgrifau diogelwch a ganlyn i'r Cyngor ar gais:

2.25.1 Tystysgrifau diogelwch ar gyfer pob eitem o offer lle mae'n briodol i'r cyhoedd eu defnyddio.

2.25.2 Tystysgrifau gwrth-dân mewn perthynas ag unrhyw *marquee* neu lety pabell.

2.25.3 Tystysgrifau PAT mewn perthynas â phob eitem o offer trydanol a ddefnyddir.

2.26 Rhaid i bob fan hufen iâ gydymffurfio â DEDDF DIOGELWCH BWYD 1990, RHEOLIAD (CE) RHIF 852/2004, RHEOLIADAU HYLENDID BWYD (LLOEGR) 2-6 a rhaid i dendrwyr ddarparu Tystysgrifau Hylendid a dogfennau Cofrestru â'r Cyngor gyda'u cyflwyniad tendr. D.S. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch yr uchod neu angen cymorth i'ch galluogi i gydymffurfio â'r gofyniad hwn, cysylltwch â Swyddfa Diogelwch Bwyd Cyngor Gwynedd - (01766) 771000 ar unrhyw adeg yn ystod oriau swyddfa.

2.27 Rhaid i'r holl unedau gydymffurfio ymhob agwedd gyda deddfwriaeth Diogelwch Bwyd ac Iechyd a Diogelwch:

- Deddf Diogelwch Bwyd 1990
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
- Rheoliad (CE) Rhif 852/2004
- Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
- Rheoliadau Gwybodaeth Am Fwyd (Cymru) 2014

2.28 Ni ddylai'r Tendrwr ganiatáu neu achosi'n uniongyrchol unrhyw berygl i'r cyhoedd mewn perthynas â'r Consesiwn yn sgil unrhyw gynllun ac offer a ddefnyddir gan y Tendrwr pan fo'r safle yn cael ei feddiannu.

3. Y CAIS

3.1 Rhaid i chi anfon eich cais mewn amlen i'w derbyn gan y Rheolwr Stadau, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH, erbyn **14:00 dydd Mercher 17eg o Ragfyr 2025.**

3.2 Ni ddylai unrhyw awgrym o'ch cwmni fod yn weladwy ar y tu allan i'r amlen. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau drwy ffacs neu ar e-bost, ac ni fydd unrhyw gais a anfonir fel hynny yn cael ei ystyried.

3.3 Nid yw derbyn y cais ar gyfer y consesiwn yn golygu bod y Cyngor yn ei dderbyn. Peidiwch ag anfon unrhyw arian ymlaen yn ystod y cam hwn.

Darllenwch y cymal hysbysu hwn a'i ddychwelyd fel rhan o'ch cais tendr.
Rwyf wedi darllen y Telerau a'r Amodau hyn. Rwyf yn eu deall ac yn cytuno i lynu atynt ac unrhyw amodau eraill a gyflwynir gan y Cyngor.

Llofnodwyd: ...................................................................... Dyddiad: ....................................................

Enw (llythrennau bras): ..........................................................................................

**Ar ran (enw'r cwmni):** ..........................................................................................

Tyst:……………………………………………………………………………………….

Enw (llythrennau bras): ..........................................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................................................................

Rhif ffôn: ……………………………………………………………………………………

E-bost: …………………………………………………………………………………….

FFURFLEN TENDR - CONSESIWN HUFEN IÂ GWYNEDD
01/01/2026 – 30/04/2027
(Llenwch bob rhan gan ddileu fel sy'n briodol)

| Math y Fan Hufen Iâ | | Uchafswm maint yr uned (mewn metrau) | Llun o’r uned |
|---|---|---|---|
| Uned 1 | | | |

Tystysgrifau Hylendid a dogfennau Cofrestru'r Cyngor wedi'u hamgáu gyda'r cyflwyniad tendr

Ydynt / Nac ydynt

Copi o dystysgrif atebolrwydd cyhoeddus £5m y cwmni wedi'i amgáu

Ydy / Nac ydy

Dau dystlythyr lle mae gwaith tebyg wedi'i wneud:

| | |
|---|---|
| Digwyddiad …………………………………..<br>Sefydliad ……………………………………..<br>Enw Cyswllt ………………………………….<br>Cyfeiriad ……………………………………..<br>………………………………………………….<br>Cod post ……………………………………..<br>Rhif ffôn ………………………………………. | Digwyddiad …………………………………..<br>Sefydliad ……………………………………..<br>Enw Cyswllt ………………………………….<br>Cyfeiriad ……………………………………..<br>………………………………………………….<br>Cod post ……………………………………..<br>Rhif ffôn ………………………………………. |

Ar ôl archwilio'r Telerau a'r Amodau ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau uchod, ar gyfer y consesiynau ar y safleoedd a ganlyn rwyf yn cynnig:

| Lleoliad | Safle | Cynnig (£ y flwyddyn) |
|---|---|---|
| Llanbedrog | Hen Chwarel | |

Rwyf yn ymgymryd i gadw ein tendr ar agor i'w dderbyn am gyfnod o fis o ddyddiad cyflwyno'r tendr hwn.

Os byddaf yn llwyddiannus gyda'r cyflwyniad hwn, rwyf yn ymgymryd i weithredu cytundeb ffurfiol gyda'r Cyngor a thalu'r swm a dendrwyd yn ei gyfanrwydd, yn amodol ar dderbyn anfoneb swyddogol gan y Cyngor.

Rwyf yn deall y gallai methu â thalu'r symiau hyn erbyn yr amser a nodir arwain at y Cyngor yn canslo'r cytundeb a chynnig y tendr i gwmni arall ac ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw wariant, colled, difrod neu atebolrwydd y mae'r Tendrwr yn ei gael neu yn ei gronni.

Rwyf yn deall nad yw'r Cyngor wedi'i ymrwymo i dderbyn y tendr isaf, uchaf neu unrhyw dendr y mae'n ei gael.

Llofnod: ..........................................................................................................

Llythrennau bras: ...........................................................................................

Dyddiad: ..........................................................................................................